# Ar drywydd llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth
# Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

### Colofn: Map llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD)

| **Datganiad cryno** |
| --- |
| Mae gan ddysgwyr ddiddordeb mewn gweithgareddau synhwyraidd gan gynnwys y rhai sydd ag elfennau cyffyrddol a gweledol. Gallan nhw fwynhau'r teimlad o wneud marciau ond nid ydyn nhw o reidrwydd yn llywio eu marciau'n weledol na'n canolbwyntio ar 'gynnyrch' eu gweithredoedd.<br><br>(Mae gweithgareddau asesu a strategaethau addysgu ar gyfer eitemau yn y golofn hon i'w gweld yn neunyddiau *Ar Drywydd Dysgu*.) |

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2012 

## Ar drywydd llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

### Colofn: Camau nesaf A

| **Datganiad cryno** |
|---|
| Mae sylw gweledol dysgwyr wedi'i gyfeirio tuag at yr hyn maen nhw'n ei wneud (cydsymud llaw a llygad). Maen nhw'n dangos rywfaint o ddiddordeb yn y 'cynnyrch' terfynol sy'n cynnwys llinellau a/neu 'ddotiau' yn bennaf sy'n troshaenu ei gilydd. |

| **Ymateb (drwy edrych ar/cydnabod ei 'lun') pan fydd oedolyn yn siarad am yr hyn y mae wedi'i wneud** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Yn ystod chwarae anniben, mewn hambwrdd tywod neu pan fyddan nhw ar y traeth, tynnwch sylw'r dysgwyr at y marciau y maen nhw'n eu gwneud/printiau y maen nhw wedi'u gwneud yn y tywod. | Mae'r dysgwr yn **edrych ar** y marciau gyda rhywfaint o ddiddordeb *(e.e. rhwbio bysedd llawn paent ar bapur* ***ac yn sylwi ar*** *y marc drwy bwyntio at, edrych ar neu ailadrodd gwneud marciau pan fydd oedolyn yn tynnu eu sylw at hyn).* |

| **Dyfalbarhau i wneud marciau er mwyn cynhyrchu canlyniad (sy'n ymddangos fel pe bai ar hap)** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Darparwch ystod eang o gyfleoedd i wneud marciau mewn cyfryngau gwahanol, *e.e. tywod gwlyb, ewyn neu baent ar bapur neu wydr.* Defnyddiwch baent o wahanol drwch a phapur o wahanol liwiau. Gwnewch yn siŵr bod brwshys, sbyngau, rholeri, creonau, ac ati ar gael iddyn nhw. | Mae'r dysgwyr yn mynd ati'n annibynnol i wneud symudiadau dabio, sgubo neu sgrwbio **ailadroddus** i gynhyrchu dotiau, llinellau a/neu ardaloedd o liw cyn colli diddordeb. |

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2012

## Ar drywydd llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| **Cyffwrdd llun neu symbol er mwyn cael gwobr weledol neu glywedol ar y cyfrifiadur neu ar gyfrifiadur tabled (yn canolbwyntio ar lun fel 'targed' ond mae'n bosib na fydd yn gwahaniaethu rhwng yr hyn a gynrychiolir gan wahanol luniau)** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Ar gyfrifiadur personol gyda sgrin gyffwrdd neu gyfrifiadur tabled cyffwrdd-sensitif, dewiswch ddarn o feddalwedd (*e.e.* Peeping Musicians) sy'n cyflwyno eitem darged mewn safleoedd ar hap ar y sgrin ac sy'n animeiddio pan fydd y dysgwr yn cyffwrdd â'r targed gyda rhywfaint o gywirdeb. | Mae'r dysgwr yn gallu **lleoli'n weledol** targed mewn safle penodol ar y sgrin a **chyffwrdd** ag ef i gychwyn y rhaglen a chael gwobr. |

| **Arbrofi drwy wneud marciau gan ddefnyddio rhannau'r corff (*e.e. y traed a'r dwylo*)** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Darparwch ystod eang o gyfleoedd i wneud marciau mewn cyfryngau gwahanol, *e.e. tywod gwlyb, ewyn neu baent ar bapur neu wydr gyda phaent o wahanol drwch a phapur o wahanol liwiau.* Mewn hambwrdd tywod neu ar y traeth, gwnewch olion traed yn y tywod. | Mae'r dysgwr yn **defnyddio sawl strategaeth** i wneud marciau, er enghraifft:<br>• defnyddio'r ddwy law neu'r ddwy fraich<br>• defnyddio o leiaf dau wahanol ran/ardal o'r llaw neu'r fraich<br>• defnyddio o leiaf dau symudiad gwahanol o'r un rhan o'r corff. |

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2012

## Ar drywydd llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| **Gafael mewn eitemau ac yn dechrau defnyddio'r bysedd i wneud marciau, *e.e. mewn tywod gwlyb, ewyn, ac ati,* gan symud ymlaen i sgriblo ar bapur** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Gwnewch yn siŵr bod dewis o 'offer' ar gael y gellir eu defnyddio i wneud marciau, *e.e. creonau tew, pensiliau trwchus, rholeri, sbyngau, brwshys, stampiau printio, tato, ac ati.*<br><br>Modelwch sut i'w defnyddio gyda'r dysgwr yn gwylio. | Mae'r dysgwr yn gwneud marciau **gan ddefnyddio bys** fel offeryn.<br><br>Mae'r dysgwr yn gwneud marciau, gan gynnwys rhai **yn defnyddio offer** y maen nhw'n eu dal. |

| **'Lleoli'r' sgriblo o fewn gofod diffiniedig (o fewn terfynau'r dudalen neu ar ran neilltuol o'r dudalen) gan ddangos rheolaeth weledol gynyddol** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Rhowch amryw o wahanol feintiau 'cynfas' i'r dysgwr (*e.e. rholyn o bapur wal, neu bapur A2, A3, A4*). | Mae'r dysgwr yn gwneud marciau o fewn ffiniau'r papur mewn ardal neu ardaloedd penodol ar y cynfas – er eu bod wedi'u rhoi yno'n fwriadol. |

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2012 

## Ar drywydd llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

**Colofn: Camau nesaf B**

| **Datganiad cryno** |
|---|
| Mae'r dysgwr yn mynd ati i wneud marciau yn fwriadol i gynrychioli gwrthrych neu i gyfleu syniad syml. Mae siapiau (e.e. *hirgrwn neu gylch*) yn dechrau ymddangos yn eu lluniau. Maen nhw'n gallu defnyddio symbol cyfarwydd i gofnodi ymateb syml. |

| **Dechrau rhannu eu 'llun' wrth ryngweithio â'r oedolyn** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Gofynnwch i'r dysgwr ddangos ei lun i chi. | Mae'r dysgwr yn gallu adnabod ei lun ei hun o'r lluniau eraill *(e.e. pan fydd newydd ei gwblhau ac wedi'i grwpio gydag eraill, neu'n ddiweddarach pan maen nhw'n cael eu harddangos gyda'i gilydd)*. |
| Cymerwch y llun a thynnwch sylw at wahanol agweddau arno. | Mae'r dysgwr yn edrych ar y llun a gwahanol elfennau yn y llun wrth i'r oedolyn bwyntio atyn nhw.<br><br>Mae'r dysgwr yn gwneud ymateb o ryw fath wrth ryngweithio am y llun, *e.e. lleisio, pwyntio neu'n gwenu'n briodol*. |

| **Dewis symbol neu lun unigol i ddisgrifio rhywbeth sydd newydd ddigwydd** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Mewn amrywiaeth o weithgareddau ar draws y cwricwlwm, rhowch ddewis o dri neu bedwar symbol i'r dysgwr y gallan nhw eu defnyddio i gofnodi ymateb, *e.e. rhowch symbolau mewn cerddoriaeth ar gyfer yr offerynnau (gwahanol iawn) y byddan nhw'n eu (gweld)/clywed yn cael eu chwarae.* | Mae'r dysgwr yn dewis symbol priodol.<br><br>Mae'r dysgwr yn dewis symbol ar gyfer yr offeryn y maen nhw newydd ei glywed. |

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2012 

## Ar drywydd llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

<table>
<tr><th colspan="2">Sgriblo i gynhyrchu eu ‘llun’ eu hunain ac yn dechrau priodoli ystyr iddo</th></tr>
<tr><th>Gweithgareddau asesu/awgrymiadau</th><th>Sylwch ar y canlynol</th></tr>
<tr><td>Rhowch amrywiaeth o ddeunyddiau i’r dysgwr ar gyfer tynnu llun. Gwrandewch ar eu sgwrsio wrth iddyn nhw dynnu llun.<br><br>Rhowch sylwadau ar yr hyn y maen nhw’n ei wneud a’u hannog i siarad am eu gwaith wrth iddyn nhw weithio ac ar ôl ei gwblhau.</td><td>Mae’r dysgwr yn gwneud rhyw fath o sylwadau yng nghyd-destun tynnu llun. Er enghraifft, maen nhw’n gwneud sylwadau am:<br>• eu gweithredoedd wrth iddyn nhw dynnu llun<br>• yr offer neu’r technegau maen nhw’n eu defnyddio<br>• y marciau y maen nhw wedi’u cynhyrchu<br>• y lliwiau y maen nhw wedi’u dewis<br>• beth mae’r llun, neu elfen o’r llun, yn ei gynrychioli yn eu barn nhw</td></tr>
<tr><th colspan="2">Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr at y cam hwn)</th></tr>
<tr><td colspan="2">Ceisiwch gynnig sylwadau cadarnhaol a phenodol, e.e. ‘Rwy’n hoffi’r ffordd rwyt ti wedi gwneud y llinell hir yma. Wyt ti’n hoffi e?’, yn hytrach na dim ond ‘Mae hwnnw’n llun da’.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">Dewis llun neu symbol (o blith dau neu fwy) i gyfleu neges mewn meddalwedd symbolau siarad ar gyfrifiadur neu ar gyfrifiadur tabled</th></tr>
<tr><th>Gweithgareddau asesu/awgrymiadau</th><th>Sylwch ar y canlynol</th></tr>
<tr><td>Mewn amryw o weithgareddau ar draws y cwricwlwm, sicrhewch fod amryw o luniau neu symbolau perthnasol ar gael i’r dysgwr i’w alluogi i gofnodi ymateb sy’n berthnasol i’r gweithgaredd.<br><br>Er enghraifft, ar gyfer Gwybodaeth a Dealltwriaeth o’r Byd, gallai dysgwyr gofnodi eu ‘hoff leoedd yn yr ysgol’ (e.e. siglen, ystafell chwarae meddal, pwll, llyfrgell, tanc pysgod, ac ati) drwy ddewis llun neu symbol i’w roi ar siart wrth ochr eu ffotograff (a’u henw).</td><td>Mae’r dysgwr yn edrych ar y symbolau ac yn dewis un i gofnodi eu hymateb – fel y bo’n briodol i’r cyd-destun.</td></tr>
<tr><th colspan="2">Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr at y cam hwn)</th></tr>
<tr><td colspan="2">Gall symbolau gael eu hargraffu gyda meddalwedd Boardmaker neu Matrix Maker Plus a’u defnyddio fel troshaen mewn dyfais gyfathrebu megis Go-Talk neu ei dorri i wneud cardiau symbol unigol. Gellir eu casglu hefyd mewn llyfr PECS. Fel arall gallan nhw ddefnyddio symbol drwy feddalwedd ar gyfrifiadur personol neu gyfrifiadur tabled).</td></tr>
</table>

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2012 

## Ar drywydd llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| **Defnyddio'r llaw a ffafrir yn fwy cyson wrth wneud marciau, ac weithiau'n defnyddio offeryn (wedi'i addasu)** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Sylwch sut y mae'r dysgwr yn mynd ati i wneud marciau. | Fel arfer bydd y dysgwr yn codi eitemau gyda llaw arbennig (prif law) neu'n eu trosglwyddo i'r llaw honno. Yn gyffredinol mae'r dysgwr yn defnyddio'r llaw hon i dynnu lluniau a gwneud marciau. |
| Rhowch greonau tew, pennau neu bensiliau trwchus gyda gafaelion llawysgrifen i'r dysgwr. | Bydd y dysgwr yn gwneud marciau gwahanol wrth ddal offer ysgrifennu. |

| **Cau rhai llinellau wrth sgriblo (gan greu ffurfiau sy'n ymddangos fel siapiau)** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Dylech barhau i ddarparu ystod eang o gyfleoedd i'r dysgwr ddefnyddio cyfryngau ac offer gwahanol i wneud marciau. | Mae'r dysgwr yn gwneud rhai gweithredoedd 'siâp cylch' wrth dynnu llun gan gynhyrchu ardaloedd caeedig o le.<br><br>Mae lluniau'r dysgwr yn dechrau cynnwys rhai elfennau sy'n fwy adnabyddadwy fel siapiau. |

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2012 

## Ar drywydd llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

**Colofn: Camau nesaf C**

| **Datganiad cryno** |
|---|
| Gall y dysgwyr gynnwys llinynnau o lythrennau yn eu lluniau. Maen nhw’n ceisio cynrychioli geiriau, ond mae’n bosib nad ydyn nhw’n adnabyddadwy a gall eu hymdrechion i’w darllen yn ôl fod yn anghyson. |

| **Dweud rhywbeth am eu llun neu newyddion y gall oedolyn ei ysgrifennu** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Yn ystod amser cylch, trafodwch beth y mae pawb wedi’i wneud dros y penwythnos. Ysgrifennwch beth maen nhw wedi’i ddweud, yna gofynnwch iddyn nhw ei gyfleu mewn llun.<br><br>Pan fydd y dysgwr wedi cwblhau llun, gofynnwch gwestiynau, *e.e. ‘Beth yw hwn?’,* a chofnodwch ei ymateb a’i ddefnyddio fel capsiwn ar gyfer y llun. | Mae’r dysgwr yn gallu darparu ymadrodd byr am ei lun neu ei newyddion (*e.e. ‘cicio pêl-droed’*) neu restr o elfennau (wedi’i hysgogi) (*e.e. ‘fi, mam, tad, siop’*).<br><br>Mae’r dysgwr yn gwylio’r oedolyn wrth i’r ymadrodd gael ei ysgrifennu. |

| **Dewis dau neu fwy o symbolau mewn dilyniant i gyfleu ‘beth ddigwyddodd gyntaf . . . ac wedyn’ a’u defnyddio i rannu gwybodaeth ag oedolyn** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Os yw’r dysgwyr wedi gadael yr ystafell ddosbarth/grŵp i wneud gweithgaredd, gofynnwch iddyn nhw adrodd yn ôl ar yr hyn mae wedi’i wneud.<br><br>Dylai fod cardiau â lluniau neu symbolau arnyn nhw o’r gweithgareddau, a gofynnwch i’r dysgwyr ‘gofnodi’ beth y mae wedi’i wneud ar fwrdd neu gerdyn gan ddefnyddio lluniau. | Mae’r dysgwr yn defnyddio symbolau i adrodd ar yr hyn y mae wedi’i wneud *(e.e. ‘Es i nofio’, ‘ar y bws’, ‘tynnu dillad’, ‘nofies i’)*.<br><br>Mae’n rhaid i’r dysgwr roi (o leiaf) ddau lun/symbol heb gael ei ysgogi. |

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2012 

**Ar drywydd llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth**
**Gweithgareddau asesu/awgrymiadau**

| **Pwyntio at 'ysgrifen' a 'llun' mewn llyfr ar gais** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Mewn amrywiaeth o lyfrau a thestunau gyda chymysgedd o ysgrifennu a lluniau, gofynnwch i'r dysgwr 'Dangosa'r llun i mi' a 'Dangosa'r ysgrifennu i mi'.<br><br>Pwyntiwch at bob un yn ei dro a gofynnwch 'Ydw i'n darllen y darn 'ma? Neu'r darn 'ma?'. | Mae'r dysgwr yn adnabod 'llun' ac 'ysgrifennu' yn gywir.<br><br>Mae'r dysgwr yn pwyntio at 'ysgrifennu'. |
| **Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr at y cam hwn)** | |
| Pan fyddwch yn darllen, pwyntio at y geiriau yn y testun wrth i chi ddarllen. Mewn mannau strategol dywedwch 'Nawr, gadewch i ni edrych ar y 'llun'. Ceisiwch ymarfer paru lluniau i 'luniau' yn y testun a geiriau i 'ysgrifennu' yn y testun. Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwr gael hyd i'r 'llun' cyn cael hyd i'r 'ysgrifennu'. Pan fyddan nhw'n gwneud hyn yn gyson, amrywiwch y drefn. | |

| **Dangos diddordeb pan fydd oedolyn yn ysgrifennu eu newyddion/stori neu'n darllen eu newyddion yn ôl; cadarnhau mai dyna'r hyn y maent am ei ddweud** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Ar ôl cofnodi newyddion y dysgwr (gweler uchod), pwyntiwch at y geiriau a'u darllen yn ôl iddyn nhw. Nawr ceisiwch eu hannog nhw i ddarllen y neges i chi.<br><br>Er enghraifft, gofynnwch 'Ydy hynny'n iawn?' neu 'Ydych chi am ddweud unrhyw beth arall?'. | Mae'r dysgwr yn edrych ar y testun ac yn gwrando wrth iddo gael ei ddarllen iddyn nhw, yna mae'n ceisio ei ddarllen ei hun.<br><br>Mae'r dysgwr yn nodio, yn lleisio neu'n dangos fel arall ei fod yn hapus â'r testun a gafodd ei gofnodi. |

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2012 

## Ar drywydd llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| **Cynnwys rhai siapiau tebyg i lythrennau, neu ffurfiau tebyg i eiriau (gyda bylchau rhyngddynt) wrth dynnu llun** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Dylech barhau i ddarparu ystod eang o gyfleoedd i'r dysgwr ddefnyddio cyfryngau ac offer gwahanol i wneud marciau a chofnodi. | Mae'r dysgwr yn cynhyrchu rhai siapiau sy'n debyg i lythrennau (fel yn ei enw ei hun o bosib), neu linynnau o lythrennau, sy'n edrych yn debyg i linellau ysgrifennu.<br><br>Gallan nhw ddechrau rhannu'r rhain yn grwpiau sy'n edrych fel geiriau. |

| **Defnyddio marc(iau) i labelu eu gwaith eu hunain** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Ar ôl cwblhau llun, ceisiwch annog y dysgwr i ysgrifennu, dargopïo neu gopïo ei enw ei hun (neu'r enw cyntaf) arno. | Mae'r dysgwr yn defnyddio creon, pen neu bensil i labelu llun gyda llythyren(llythrennau) o'i enw ei hun. Efallai na fyddan nhw yn y drefn iawn. |

| **Dewis lluniau neu symbolau i gyfansoddi brawddeg fer wrth ddefnyddio meddalwedd symbolau siarad ar gyfrifiadur neu ar gyfrifiadur tabled** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Rhowch dechnoleg â chymorth briodol i'r dysgwr, *e.e. meddalwedd megis SymWriter ar gyfrifiadur personol neu Proloquo2Go ar gyfrifiadur tabled*. | Mae'r dysgwr yn dewis dau symbol yn y drefn gywir i greu ymadrodd syml, *e.e. 'eisiau diod'*, ac yn cychwyn y meddalwedd i glywed yr ymadrodd. |

| **Rhoi cynnig ar amrywiaeth o offer i wneud marciau a siapiau ar bapur neu ar ddeunydd arall priodol** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Rhowch bapur a chreon, pensil neu ben i'r dysgwr (gyda gafaeliad addas, os oes angen).<br><br>Rhowch raglen ddarlunio/ysgrifennu addas i'r dysgwr ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. | Mae'r dysgwr yn gallu cynhyrchu dotiau, llinellau, dolennau, llythrennau a siapiau elfennol gyda chreon, pensil neu ben addas.<br><br>Mae'r dysgwr yn defnyddio pen y bwrdd gwyn rhyngweithiol i greu canlyniadau (fel uchod). |

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2012 

**Ar drywydd llythrennedd – Ysgrifennu er gwybodaeth**
**Gweithgareddau asesu/awgrymiadau**

| **Tynnu rhai lluniau cynrychioliadol (*e.e. person neu anifail*)** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Siaradwch â'r dysgwr am eu lluniau. | Mae'r dysgwr yn cyfeirio at elfennau o'i lun fel cynrychiolaethau, *e.e. pobl neu anifeiliaid (neu'r haul, tŷ neu goeden)*. Er ei fod yn elfennol, gellir ei adnabod mwy neu lai fel y pethau hyn. |

| **Ceisio dargopïo siapiau a llythrennau mawr** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Rhowch fodel i'r dysgwr ddargopïo ar bapur, sgrin gyffwrdd neu gyfrifiadur tabled lle y ceir amlinellau bras o'r siapiau/llythrennau iddyn nhw eu dilyn.<br><br>Dylai siapiau/llythrennau fod yn syml ac yn eithaf mawr. | Nid yw dargopïo'r dysgwr yn gwyro'n sylweddol o'r amlinell wrth ddargopïo cylch neu sgwâr.<br><br>Maen nhw'n weddol gywir wrth ddargopïo dros lythrennau syml *(e.e. C, I, L, O, S).* |

| **Ysgrifennu rhai llythrennau yn eu henw eu hunain (gall eu ffurf fod yn anghonfensiynol)** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Dylech barhau i ddarparu ystod eang o gyfleoedd i'r dysgwr ddefnyddio cyfryngau ac offer gwahanol i wneud marciau a chofnodi. | Pan ofynnir i'r dysgwr ysgrifennu ei enw, mae'n cynhyrchu rhai siapiau o'r cof sy'n edrych yn debyg i lythrennau o'i enw ei hun. |

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2012
WG14632